**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MA/JJ/0453/22

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

SeneddClimate@senedd.cymru

4 Chwefror 2022

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Yn dilyn fy llythyr ar 17 Rhagfyr 2021 yn hysbysu'r Pwyllgor am gyhoeddi'r fframwaith Sylweddau Ymbelydrol, hoffwn rannu dolenni i'r Cytundeb Amlinellol Fframwaith a'r Concordat a gyhoeddwyd ar gyfer pum fframwaith cyffredin pellach sy'n dod o fewn fy mhortffolio:

- Ansawdd Aer
- Atal a Rheoli Llygredd Integredig – Datblygu a Phennu'r Technegau Gorau sydd ar Gael (BAT)
- Cemegion a Phlaladdwyr
- Iechyd Planhigion
- Mathau o Blanhigion a Hadau

Deallaf fod y Pwyllgor wedi nodi detholiad o fframweithiau y mae'n dymuno blaenoriaethu craffu arnynt. Bydd y dogfennau a gyhoeddwyd hyd yma yn helpu yn y broses hon ac mae fy swyddogion hefyd yn barod i gynorthwyo.

Mae tri fframwaith o fewn fy mhortffolio nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyfres ddiweddaraf hon i'w cyhoeddi:

- Nwyon wedi'u Fflworeiddio a Sylweddau Sy'n Teneuo'r Osôn (F-Nwy ac ODS)
- Adnoddau a Gwastraff
- Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda llywodraethau eraill y DU i sicrhau bod y fframweithiau hyn sy'n weddill yn barod i'w cyhoeddi cyn gynted â phosibl. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor eto i gadarnhau pan fydd y dogfennau ar gael i'w hystyried.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad yn y Senedd.

Yn gywir

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd